Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being
GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Iechyd Rhyngwladol
International Health

# CYLCHLYTHYR

RHIFYN 2: IONAWR 2024

## Adroddiad Statws Byd-eang ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd 2023

Mae'r adroddiad statws Byd-eang sydd newydd ei ryddhau ar ddiogelwch ar y ffyrdd 2023, yn manylu ar raddfa marwolaethau traffig ffyrdd byd-eang, a'r cynnydd o ran datblygu cyfreithiau, strategaethau a chamau gweithredu i'w lleihau ledled y byd.

Mae'n rhoi trosolwg o'r cynnydd rhwng 2010 a 2021, ac yn gosod llinell sylfaen ar gyfer targed Degawd Gweithredu'r Cenhedloedd Unedig dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd 2021-2030 o haneru marwolaethau ac anafiadau traffig ffyrdd erbyn 2030.

Mae'r adroddiad yn dangos bod nifer y marwolaethau traffig ffyrdd wedi gostwng ychydig i 1.19 miliwn y flwyddyn ers 2010. Yn fyd-eang, o 2019 ymlaen, damweiniau traffig ar y ffyrdd yw prif laddwr plant a phobl ifanc 5 i 29 oed a dyma'r 12fed prif achos marwolaeth o ystyried pob oed. Mae mwy na hanner y marwolaethau ymhlith cerddwyr, beicwyr modur a beicwyr. Mae'r Rhanbarth Ewropeaidd yn adrodd am y gostyngiad mwyaf mewn marwolaethau ers 2010 - gostyngiad o 36% mewn marwolaethau.

Mae'r adroddiad yn galw ar wledydd i ddylunio ac adeiladu eu systemau symudedd ar gyfer pobl yn gyntaf yn lle cerbydau modur, a gyda diogelwch fel y prif fater.

Mae gwybodaeth ychwanegol, adnoddau a deunydd cefndir ar gael ar y ddolen hon.

## Adeiladu Cymru o Ddinasyddion Byd-eang Gweithgar




Mae Susie Ventris-Field yn amlinellu pwysigrwydd dinasyddiaeth fyd-eang i ddemocratiaeth Gymreig ffyniannus, ac yn dadlau bod angen inni gael map ffordd ar gyfer addysg dinasyddiaeth fyd-eang sy'n mynd ymhell y tu hwnt i gatiau'r ysgol.

Gallwch ddarllen ei herthygl gyda'r Sefydliad Materion Cymreig YMA.

**Modiwlau Dinasyddiaeth Fyd-eang y GIG**

I weld y modiwlau llawn ewch i hafan dysgwr my.esr.nhs.uk a chwilio am Modiwl Craidd Dinasyddiaeth Fyd-eang
NEU mewngofnodwch i'ch cyfrif yn dysgu.gig.cymru a chwilich am y Rhaglen Dinasyddiaeth Fyd-eang
Gallwch hefyd wylio fideo rhagarweiniol YMA.

# Strategaeth Iechyd Ryngwladol newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru



Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi diweddaru ei Strategaeth Iechyd Rhyngwladol 2017 i adlewyrchu'r newidiadau sylweddol yn y dirwedd fyd-eang yn well a galluogi Strategaeth Hirdymor newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae Cymru yn rhannu nifer o'i heriau â'r gymuned ryngwladol gan gynnwys mynd i'r afael ag effeithiau iechyd yr argyfwng hinsawdd, effaith hirdymor pandemig Covid-19, anghydraddoldeb, iechyd meddwl a llesiant, a'r argyfwng costau byw. Mae Strategaeth Iechyd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi sut y bydd y sefydliad yn gweithio gyda phartneriaid fel sefydliadau iechyd cyhoeddus, Llywodraeth Cymru ac eraill i alluogi dysgu a gweithio mewn partneriaeth er enghraifft, drwy ddarparu Cymuned Ymarfer Iechyd Rhyngwladol.

Nod y strategaeth newydd yw:

- Sicrhau'r manteision mwyaf posibl i iechyd a llesiant pobl yng Nghymru.
- Datblygu pobl a sefydliadau sy'n gyfrifol yn fyd-eang.
- Ymateb i fygythiadau iechyd byd-eang a chael budd o gyfleoedd rhyngwladol.

Gall gweithio iechyd rhyngwladol amrywio o bartneriaethau ymchwil, rhannu gwybodaeth ar y cyd drwy gyfarfodydd digidol i hyfforddiant ar y cyd a chydweithio ar brosiectau. Yna gellir gweithredu'r dysgu hwn yng Nghymru i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau.

Meddai Liz Green, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Polisi ac Iechyd Rhyngwladol:

"Mae gweithio gyda'n partneriaid rhyngwladol yn cynnwys manteision posibl o ran gwella iechyd y boblogaeth a chreu Cymru decach.
"Bydd y strategaeth hon wedi'i hadnewyddu yn cynorthwyo ein cydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a thu hwnt wrth ddysgu ar y cyd drwy arbenigedd iechyd rhyngwladol a'i rannu, gan ein helpu i atal clefydau, hyrwyddo a diogelu iechyd a llesiant, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a all gael effaith gydol oes ar iechyd y boblogaeth."

Gallwch ddod o hyd i'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol ar ei newydd wedd: â Ffocws Cenedlaethol, sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang YMA.

# Prosiect Gwella Iechyd Diana ym Malawi









Fel rhan o bartneriaeth barhaus Prifysgol Caerdydd â Phrifysgol Gwyddorau Iechyd Kamuzu, rwyf wedi bod yn arwain prosiect gwella iechyd i ymgorffori addysgu Haemoglobinopathi ar draws cwricwlwm nyrsio, bydwreigiaeth a chymunedol Malawi. Cynhaliwyd ymweliad safle â Champws Blantyre yn ystod haf 2023 i edrych ar gyfleoedd posibl ar gyfer symudedd pellach i staff a myfyrwyr. Hyd yma, mae'r fenter hon wedi arwain at dros 400 o fyfyrwyr, addysgwyr a staff clinigol rhyngbroffesiynol yn cymryd rhan mewn dysgu Cryman-gelloedd a Thalasaemia. Hyfforddwyd 16 o staff clinigol o adrannau ar draws Ysbyty'r Frenhines Elizabeth Blantyre hefyd ar sut i weithredu archwilio splenig dyddiol sy'n achub bywydau. Mae adborth gwerthusol gan bawb a gymerodd ran yn yr addysgu a'r hyfforddi wedi bod yn wych. Ar ôl dysgu yma yng Nghymru am amser eithaf hir, roedd adar yn hedfan drwy'r ystafell ddosbarth yn sicr yn rhywbeth nad oedd fy PGCert wedi fy mharatoi ar ei gyfer!

Digwyddodd hybu iechyd anemia (gyda chyfieithydd) hefyd gyda chymunedau gwledig gan rymuso 53 o famau a phobl ifanc o 4 ysgol wahanol i chwilio am fwy o fwydydd gwaed iach, ychwanegion haearn a phryd i gael mynediad at wasanaethau iechyd ar gyfer gwaedu gormodol neu annormal yn ymwneud â mislif neu waedu wedi genedigaeth. Gwerthfawrogwyd yn fawr y rhoddion o offer meddygol, dillad ac eitemau urddas mislif a chawsant eu dosbarthu fel rhan o'r ymweliad. Roedd danfon nwyddau hylendid i dŷ diogel (yng nghwmni heddlu arfog) hefyd yn brofiad gostyngedig. Trefnwyd y rhan hon o'r ymweliad gan elusen Fisherman's Rest dan arweiniad Cymru

Cynhaliwyd sgyrsiau lledaenu ysgolheigaidd ar ôl yr ymweliad mewn 2 ddigwyddiad ym mis Hydref 2023 yn ystod Cynhadledd Iechyd Byd-eang flynyddol Hyb Affrica Llywodraeth Cymru ac mewn digwyddiad 'Anemias etifeddol yng Nghymru.' Trefnwyd y digwyddiad hwn gan grŵp ymgysylltu cymunedol Cyfeillion Cryman-gelloedd a Thalasaemia Cymru. Yma bu arbenigwyr ac aelodau o'r gymuned yn arddangos prosiectau anhygoel, yn dathlu cynnydd, ac yn edrych ar ffyrdd o wella tegwch iechyd trwy gydweithio.

Diana De
Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol Caerdydd





## Amddiffyniad PhD llwyddiannus Dr Liz Green ym Mhrifysgol Maastricht

Ar 6 Medi, llwyddodd Cyfarwyddwr Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) ac Arweinydd IHCC, Liz Green, i amddiffyn ei thesis PhD, "Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) fel arf i roi Iechyd ym Mhob Polisi" ym Mhrifysgol Maastricht ac mae wedi ennill ei Doethuriaeth. Dyma'r tro cyntaf erioed i HIA fod yn ffocws amlwg i PhD.

Os hoffech chi wylio Liz yn amddiffyn ei thesis, gallwch chi ei wylio YMA

---

## Ceisiadau ar agor ar gyfer Rhaglen Datblygu Gweithiwr Proffesiynol Gyrfa Gynnar HEPA Ewrop a WHO/Ewrop 2024

Mae galwad newydd am geisiadau nawr ar agor ar gyfer Rhaglen Datblygu Gweithiwr Proffesiynol Gyrfa Gynnar HEPA Ewrop a WHO/Ewrop 2024. Fel yr eglurir yn y ddolen, mae rhwydwaith HEPA Europe "yn gweithio i wella iechyd a llesiant trwy hyrwyddo mwy o weithgarwch corfforol i bawb. Ei chenhadaeth yw darparu fforwm ar gyfer hyrwyddo ymchwil, polisi ac ymarfer gweithgarwch corfforol sy'n gwella iechyd (HEPA) ar draws Rhanbarth Ewropeaidd WHO." Mae'r alwad yn targedu "ymchwilwyr, ymarferwyr a llunwyr polisi ar ddechrau eu gyrfa ar draws Rhanbarth Ewropeaidd WHO". Mae rhagor o wybodaeth am yr alwad a sut i wneud cais ar gael ar y ddolen uchod.

## Galwad newydd am gynnig gan raglen EU4Health

Mae galwad newydd am gynigion ar gyfer gweithredu grantiau i sefydliadau anllywodraethol wedi cael ei lansio o dan raglen EU4Health. Nod yr Alwad fydd darparu cyfraniadau ariannol i weithrediad cyrff anllywodraethol iechyd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion yw 31 Ionawr 2024. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

---

## Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol 2023/24

Mae'r cynllun ILO, sy'n anfon pobl o Gymru ar leoliadau 8 wythnos yn Affrica wedi ailagor ar gyfer ceisiadau. Mae'r rhaglen ILO wedi'i hanelu at reolwyr ac arweinwyr profiadol sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru. Rhaid i ddarpar gyfranogwyr fod yn gwbl ymroddedig ac yn gallu ymgymryd â lleoliad.
Gallwch gael rhagor o wybodaeth YMA.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

Iechyd Rhyngwladol | International Health

# Adroddiad Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol

## Gwreiddio Atal mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Adroddiad 47, Rhagfyr 2023

Mae'r adroddiad yn amlygu y gall cydweithredu ac integreiddio traws-sector gynorthwyo gofal sylfaenol a chymunedol, gan gynnwys mewn meysydd fel hybu iechyd, atal clefydau a gwyliadwriaeth. Er bod gofal sylfaenol a chymunedol yn canolbwyntio ar unigolion, mae iechyd cyhoeddus yn mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth gyfan, felly mae integreiddio'n hanfodol. Mae symud gofal sylfaenol i'r gymuned yn flaenoriaeth ryngwladol gan y gall wella effeithlonrwydd, wrth leihau neu sefydlogi costau gofal iechyd.

Mae'r Adroddiad Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol 47: Ymgorffori Atal mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn nodi dulliau sy'n seiliedig ar atebion a dysgu o sawl gwlad. Ymhlith y dulliau cyffredin mae integreiddio systemau digidol a rhannu data, asesiad a dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion ac asedau iechyd poblogaethau. Roedd llwybrau integredig yn aml yn cael eu defnyddio, yn ogystal â chymhellion sy'n cynorthwyo cydweithredu. Roedd y dulliau eraill a nodwyd yn cynnwys presgripsiynu cymdeithasol, ymarferion amlbroffesiynol, hyfforddiant ar y cyd a hyrwyddo gofal sylfaenol a chymunedol fel gyrfa ddeniadol.

---




## Adroddiad Sgiliau ar gyfer Arweinyddiaeth ym Maes Iechyd Cyhoeddus

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Wolverhampton, wedi cyhoeddi adroddiad ar Sgiliau ar gyfer Arweinyddiaeth ym Maes Iechyd Cyhoeddus. Rôl arweinwyr iechyd y cyhoedd yn y pen draw yw gwella canlyniadau iechyd, yn enwedig ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Mae'n rhaid i arweinwyr iechyd y cyhoedd weithio ar draws 'systemau' lluosog oherwydd bod achosion materion iechyd y cyhoedd yn aml yn gymhleth ac amlochrog. Mae arwain newid systemau yn sgil hanfodol sydd ei angen ym maes iechyd y cyhoedd; y gallu i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac i ysbrydoli eraill i arwain newid a hwyluso hyn i ddigwydd. Nawr yn fwy nag erioed, gyda chyfyngiadau cyllidol a'r angen i symud systemau iechyd tuag at atal, mae meddu ar y sgiliau arwain i ddod â phartneriaid ar y daith yn hanfodol. Nod yr adroddiad hwn, trwy adolygiad byr o lenyddiaeth a chyfweliadau ag arweinwyr systemau iechyd y cyhoedd, yw archwilio rôl arweinwyr iechyd y cyhoedd wrth ysgogi newid ar gyfer canlyniadau iechyd gwell a'r priodoleddau sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus. Gobeithiwn y bydd canfyddiadau'r adroddiad yn ddefnyddiol i arweinwyr systemau'r dyfodol ddatblygu eu sgiliau yn y meysydd hyn. Mae'r ddolen i'r ffeithlun YMA.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â jo.peden@wales.nhs.uk

## Rhaglen Gweithlu Iechyd Byd-eang

Wedi'i hariannu gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU (DHSC) a'i rheoli gan yr Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Drofannol (THET), nod y Rhaglen Gweithlu Iechyd Byd-eang (GHWP) yw cryfhau'r gweithlu iechyd yn Ghana, Kenya, a Nigeria. Mae gan y rhaglen yr uchelgais o sicrhau systemau iechyd mwy cydnerth ar gyfer adferiad ar ôl y pandemig a chefnogi cynnydd tuag at Gwmpas Iechyd Cyffredinol (UHC). Bydd grantiau ar gyfer Partneriaethau Iechyd newydd neu bresennol rhwng y DU, Ghana, Kenya, a Nigeria yn cael eu dyfarnu i ymateb i flaenoriaethau gweithlu cenedlaethol a nodwyd trwy asesiad cwmpasu sydd i'w gynnal mewn partneriaeth â llywodraethau cenedlaethol a rhanddeiliaid, ynghyd â'r DHSC a Swyddfa Dramor, Cymanwlad a Datblygu y DU (FCDO), yn ystod hydref 2023. Yna bydd grantiau llwyddiannus yn cael eu dyfarnu i redeg o Chwefror 2024 tan Ionawr 2025.

Bydd THET yn dyfarnu hyd at 20 grant strategol o £200,000 - £350,000 gyda'r grantiau wedi'u rhannu ar draws y tair gwlad, er y bydd yr union raniad yn dibynnu ar nifer ac ansawdd y ceisiadau a dderbynnir a blaenoriaethau ehangach. Bydd 15 grant llai o hyd at £50,000 hefyd ar gael ar gyfer prosiectau ar feysydd penodol megis arloesi, cyfleusterau iechyd gwledig, ymgysylltu â phobl alltud, cyfleoedd arweinyddiaeth i fenywod a grwpiau gwarchodedig, a'r argyfwng hinsawdd.

Anfonwch e-bost i grants@thet.org gydag unrhyw ymholiadau penodol am y Rhaglen Gweithlu Iechyd Byd-eang



## Cynhadledd Systemau IechydPen-blwydd Siarter Tallinn yn 15 oed: Ymddiriedaeth a thrawsnewid - systemau iechyd cydnerth a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol

### 12 – 13 Rhagfyr 2023, Tallinn, Estonia

Ar 12–13 Rhagfyr 2023, cynhaliodd WHO/Ewrop a Gweinyddiaeth Materion Cymdeithasol Estonia gynhadledd systemau iechyd lefel uchel i goffau 15 mlynedd Siarter Tallinn: Systemau Iechyd ar gyfer Iechyd a Chyfoeth. Mae’r egwyddorion y cytunwyd arnynt yn ystod cynadleddau systemau iechyd blaenorol Tallinn (2008, 2013 a 2018) yn parhau, a chynigiodd digwyddiad eleni gyfle i fyfyrio ar yr heriau y mae gwledydd yn eu hwynebu, wrth edrych ar sut y gallant ddatblygu systemau iechyd cydnerth, ymatebol a chynaliadwy sydd eu hangen yn yr 21ain ganrif.

## Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica

Mae Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica yn falch o gyhoeddi dau ymddiriedolwr newydd: Amanda Daniel ac Israa Mohammed.



Amanda yw'r Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (IPC) yn y Gymuned ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Daw ei threftadaeth o Calcutta, India lle ganwyd ei dau riant cyn mudo i'r DU. Amanda.daniel@wales.nhs.uk



Mae Israa yn gweithio fel Uwch Wyddonydd Epidemiolegol gyda'r Rhaglen Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi (HARP), gan gefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB) mewn gwyliadwriaeth arferol ac ymchwiliadau i achosion. Mae ganddi radd prifysgol lefel gyntaf mewn fferylliaeth, ynghyd â dwy radd meistr mewn Fferylliaeth Glinigol ac Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Datblygiad. israa.mohammed@wales.nhs.uk

Mae'r ddwy yn angerddol am iechyd rhyngwladol ac yn llawn cyffro i ddechrau eu rolau newydd!

## Darlith Flynyddol Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica




Eleni croesawodd WaAHLN Dr Matthew Harris i draddodi'r ddarlith ar y pwnc: "Dadwaddoli atebion gofal iechyd: atebion arloesol cost isel o wledydd incwm isel" . Yn y ddarlith hon, cynigiodd Dr Harris lwybr i'r GIG fabwysiadu atebion arloesol cost isel ond effeithiol o rannau o'r byd sy'n cael eu hystyried yn draddodiadol fel buddiolwyr yn hytrach na darparwyr cymorth a chefnogaeth. Mewn oes o alw cynyddol ac adnoddau sy'n prinhau, a lle mae pandemig Covid-19 wedi dangos cyfyngiadau strwythurol y system bresennol, mae'n darparu enghreifftiau o ddewisiadau amgen syml, cynnil ond o ansawdd uchel i'r arfer presennol ac yn archwilio'r rhwystrau i'w mabwysiadu.


# Digwyddiadau a Chynadleddau i ddod



### 15fed cynhadledd y rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer hybu gweithgarwch corfforol sy'n gwella iechyd (HEPA Europe)

**19eg-21ain Awst 2024**

Nod y gynhadledd yw ymgysylltu a chysylltu â gwyddonwyr, arbenigwyr blaenllaw, llunwyr polisi, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid eraill i wella a hwyluso gweithrediad gwybodaeth ym maes gweithgarwch corfforol sy'n gwella iechyd, a darparu fforwm ar gyfer rhannu'r datblygiadau gwyddonol, ymarfer a pholisi diweddaraf yn Ewrop a thu hwnt.
Ceir manylion llawn YMA.




### Hyfforddiant Hanfodion Diogelu

**20ain o Chwefror 2024 10:00 - 13:00**

Bydd yr hyfforddiant hwn yn tywys cyfranogwyr trwy'r arferion a'r gofynion Diogelu hanfodol ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio mewn undod byd-eang â phartneriaid yn Affrica.

Cofrestru YMA

## Cysylltu â Ni

**Os oes gennych unrhyw straeon neu brosiectau rhyngwladol yr hoffech iddynt gael sylw yn ein cylchlythyrau sydd ar ddod, anfonwch e-bost at:**

**Laura.holt@wales.nhs.uk**

**Daniela.stewart@wales.nhs.uk**